# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| **Cynghorydd:** | Yvonne Jardine | Adran Etholiadol: | Treforys |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Mi wnes i gynnal cymorthfeydd ward rheolaidd. Yn ogystal, rwy'n mynd i'r canlynol: Cyfarfodydd llywodraethwyr, PACT (Llywodraethwyr a Chymunedau Gyda'i Gilydd) a phreswylwyr. Rwy'n mynd i'r afael â phryderon preswylwyr dros bethau megis tai, ffyrdd a materion lleol eraill. Gweithiais gyda'm cydweithwyr lle llwyddon ni i atal cau'r brif swyddfa bost ar Stryd Woodfield; mi wnes i ddarparu arddangosiadau blodau yn y ward ac roeddwn yn gyfrifol am ddod â'r goleuadau Nadolig yn ôl i Dreforys.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir y % presenoldeb sy'n seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygu Ardal 2 | 4 | / | 8 | 50 | % |
| Cyngor | 13 | / | 17 | 76 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 4 | / | 7 | 57 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gynnwys a Chynhwysiad | 4 | / | 7 | 57 | % |
| Pwyllgor Cydraddoldeb | 2 | / | 5 | 40 | % |
| Grŵp Cynghori'r Cynllun Datblygu Lleol | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Is-bwyllgor Hawliau Tramwy a Chomin | 3 | / | 5 | 60 | % |
| **CYFFREDINOL** | **30** | **/** | **50** | **60** | **%** |
| | | | | | |
| Cyfarfodydd Craffu: | | | | | |
| Panel Perfformiad Craffu'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 3 | / | 9 | 33 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Cynnwys y Cyhoedd | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu'r Gwasanaethau Plant sy'n Derbyn Gofal | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Gofal Cymdeithasol Gartref | 2 | / | 7 | 29 | % |
| Trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | 9 | / | 10 | 90 | % |
| Panel Perffromiad Craffu Lles | 3 | / | 6 | 50 | % |
| **CYFFREDINOL** | **18** | **/** | **34** | **53** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Yn ogystal â'm hymrwymiadau cyngor, roeddwn yn gwasanaethu ar gorff llywodraethu dwy ysgol leol ac es i gyfarfodydd cymunedol lleol amrywiol fel cyfarfodydd preswylwyr, cymorthfeydd lleol a chyfarfodydd PACT.

Fel aelod o Bwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gynnwys a Chynhwysiad, ynghyd â'r Cadeirydd, es i gyfarfod â'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau i weld sut roeddent yn cyfathrebu â'u staff a'r hyn y gallwn ni (fel cyngor) ddysgu i'n galluogi i

gyfathrebu'n well. Es i gyflwyniad gan y Cydlynydd Cam-drin yn y Cartref ar y sefyllfa Cam-drin yn y Cartref yn Abertawe ac oeddwn yn falch o glywed, er bod llawer o waith i'w wneud, fod Abertawe ar y blaen.

Roeddwn ac rwyf dal i fod yn Gynghorydd Hyrwyddo Hil, Crefydd, Cred a Threftadaeth yr awdurdod ac yn gadeirydd y fforwm Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) sy'n bont rhwng y cyngor a'r gymuned BME.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Gyda'm cydweithwyr ward, mi wnes i ariannu'r arddangosiadau blodau ar draws Treforys, yr oedd y gymuned yn eu gwerthfawrogi; rwyf wedi cael gwybod sawl gwaith gymaint o wahaniaeth y maent yn ei wneud i bobl.

Ar ôl ymgyrch hir mewn partneriaeth â'm cydweithwyr i achub y brif swyddfa bost yn Stryd Woodfield, Treforys, nid oes bygythiad cau mwyach.

Gan weithio gyda'r masnachwyr lleol, roeddem yn gallu dod â'r goleuadau Nadolig yn ôl i Dreforys. Roedd cynnau'r goleuadau'n llwyddiant mawr a daeth llawer o bobl. Diolch i'r heddlu, masnachwyr lleol a phawb a fu'n gweithio i gyfrannu at lwyddiant cynnau'r goleuadau.

Rwyf hefyd wedi ymweld ag Ysgol Gyfun Treforys.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Rwyf wedi bod i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

23.07.15 - Diogelu data (gan gynnwys rôl y Rheolwr Data)

Es i hefyd i hyfforddiant Diogelu yn fy rôl fel Llywodraethwr Ysgol.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Cefnogais fenywod gydag amrywiaeth o faterion megis menywod yn ffoi rhag cam-drin yn y Cartref a bûm yn eiriolwr ar ran menywod a cheiswyr lloches.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 09.10.15 |